

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 77

Key Language

Mor + mutation

Ar fin

Moyn i.../eisiau i...

New Words

Straen	strain
Wedi blino'n lân	exhausted
Anrhegion	gifts
Treulio	to spend (time)
Osgoi	to avoid
Cwpla	to finish (SW)
Cymhleth	complicated
Argol!	Gosh!
Gwneud lles i rywun	to do so good
Cymdeithasu	to socialise
Digalon	depressed
Gair sydyn	a quick word
Ar hast	in a hurry
Clou	quick (SW)
Lan staer	upstairs (SW)
Gweddill fy oes	rest of my life
Cymwysterau	qualifications
Dyfodol	future
Hwyliau da	good spirits, good mood
Perthynas	relationship
Peipan	pipe
Bricsan	brick

For weeks now, Jac has been trying to persuade Agnes to let him move in with her and the kids. Having avoided him for as long as possible she finally made it clear what she wanted.

Jac - Ac ar ôl meddwl yn hir...Beth wyt ti wedi benderfynu? Wyt ti'n mynd i ddweud wrthyf fi?

Agnes - Dw i'n credu dy fod ti'n gwybod yn barod. Sori.

Main Grammatical Points

Agnes and Jenny are talking about how stressful their Christmas shopping has been. Agnes complains that it's been worse than usual this year because the shops have been "mor llawn" - so full and "mor brysur" - so busy.

"Mor" meaning "so" is a word that must be followed by a soft mutation:

Prysur (busy) becomes	mor brysur	so busy
Mawr (big) becomes	mor fawr	so big
And		
Diflas (boring) becomes	mor ddiflas	so boring

Normally, the letters <ll> and <rh> become <l> and <r> when they take the soft mutation. But remember that there is no need for a mutation if the word that follows "mor" starts with the letter <ll> or with the letter <rh>. Here are some examples:

Llawn (full) remains as	mor llawn
Llwyd (grey) remains as	mor llwyd
Rhyfedd (strange) remains as	mor rhyfedd

Rhwydd (easy) remains as mor rhwydd

If you want to say that you're "about to" do something in Welsh, you use the expression "ar fin". To do this, you follow the same pattern as the present tense, but replace the "yn" with "ar fin".

For example:

Mae Jac yn mynd	Jac is going
-----------------	--------------

Becomes

Mae Jac ar fin mynd	Jac is about to go
---------------------	--------------------

The "ar fin" has replaced the "yn".

Here are some other examples:

Mae Agnes yn gadael y bwyty	Agnes is leaving the restaurant
Mae Agnes ar fin gadael y bwyty	Agnes is about to leave the restaurant

Mae hi'n symud tŷ	She's moving house
Mae hi ar fin symud tŷ	She's about to move house

'Moyn i' in SW means

To want to -

And the NW version is of course

'eisiau i'

The literal translation is 'to want for...': moyn i/eisiau i

Remember - you have to use a soft mutation after the preposition i. Here are some examples to help you:

Dw i moyn i ti fynd	I want you to go - literally I want for you to go
---------------------	--

Mae hi eisiau i mi adael	She wants me to leave
--------------------------	-----------------------

Dyn ni moyn i chi weld y tŷ	We want you to see the house
-----------------------------	------------------------------

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 229

It's Jac's first night out since coming out of hospital, but he's not really up to socialising. Even the flirty new barmaid at the Yacht Club can't lift his spirits, but Brian's in his element!

Jenny and Agnes chat about Christmas but end up discussing Agnes' disastrous love life.

Geirfa

Straen	strain
Wedi blino'n lân	exhausted
Anrhegion	gifts
Treulio	to spend (time)
Osgoi	to avoid
Cwpla	to finish (SW)
Cymhleth	complicated
Argol!	Gosh!
Gwneud lles i rywun	to do so good
Gwneud byd o les	to do a world of good
Cymdeithasu	to socialise
Digalon	depressed

Golygfa 1

Agnes - Dewch i mewn/Come in....Jenny - helo. Dere i mewn. Eistedd...

Jenny - Diolch...Dw i jyst wedi galw draw am sgwrs.

Agnes - Gad i mi gadw'r papurau yma.

Jenny - So, wyt ti wedi gorffen dy siopa Nadolig eto?

Agnes - Fi?

Jenny - Wel, ie - ti. Rwyf ti mor drefnus fel arfer...yn wahanol i fi!

Agnes - A dweud y gwir, mae gwneud y siopa eleni wedi bod yn straen...yn straen ofnadwy.

Jenny - Mae siopa Nadolig yn straen i mi bob blwyddyn...

Agnes - Wel, ydy. Digon gwir. Ond mae siopa eleni wedi bod yn waeth nag erioed...Mae wedi bod mor...beth yw'r gair?

Jenny - Ofnadwy efallai?

Agnes - Ydy. Ond yn waeth na hynny, mae'r siopau wedi bod mor llawn a mor brysur, dw i wedi blino'n lân.

Jenny - Ddim ti ydy'r unig un sydd wedi blino. Mae'r siopau wedi bod yn fwy prysur nag arfer eleni am ryw reswm... A druan ohonot ti - mae'n rhaid i ti brynu cymaint o anrhegion i'r plant hefyd...Wyt ti wedi cael pob dim i Rhodri a Beca?

Agnes - Do, fwy neu lai - diolch byth.

Jenny - A beth sy'n mynd i ddigwydd eleni?

Agnes - Beth wyt ti'n ei feddwl?

Jenny - Ar ddiwrnod Dolig ei hun? Ydy Brian yn treulio'r Nadolig hefo ti a'r plant yn y tŷ?

Agnes - Sa i wedi siarad gyda Brian am 'bytu'r Nadolig eto. Dw i wedi osgoi'r sgwrs hyd yn hyn.

Jenny - A sut mae petha rhyngddot ti a Jac erbyn hyn?

Agnes - Does dim byd rhwng Jac a fi erbyn hyn.

Jenny - Beth? Ydych chi wedi...?

Agnes - Cwpla? Ydyn. Rydyn ni wedi cwpla. Mae popeth drosodd.

Jenny - Mae pob dim drosodd?

Agnes - Ydy. Roedd Jac moyn symud i fyw gyda fi a'r plant. Roedd e moyn popeth. Ond mae pethau mor gymhleth - mae fe a Brian yn ffrindiau. Byddai Brian yn ei ladd e tasai fe'n ffeindio mas am Jac a fi. Doedd dim dewis gyda fi - roedd rhaid cwpla pethau...

Jenny - A sut mae Jac yn teimlo? Ydy o'n OK?

Agnes - Nag yw. Nag yw wir. Smo Jac yn hapus am y peth o gwbl.

Golygfa 2

Brian - Argol! Mae hi'n llawn yma heno.
 Jac - Mae pob man yn llawn yr adeg yma o'r flwyddyn.
 Michelle - What can I get you two gents then?
 Brian - Benjamin isn't in tonight, then?
 Michelle - Yeah. He is. But he's on kitchen duty tonight...
 Jac - ...Brian? Oes rhaid i ni aros? Mae cymaint o swm yma. Mae'n rhy brysur. Beth am fynd yn ôl i gael cwpwl o beints yn dawel, hey?
 Brian - Mynd yn ôl i'r tŷ? Pam? I beth?
 Jac - Dw i jyst ddim eisiau bod yma, mate...
 Brian - Mae o'n gwneud lles i chdi fod yma. Ac mae o yn gwneud byd o les i chdi fynd allan. Mae'n bwysig dechrau cymdeithasu eto...
 Jac - Dw i ddim eisiau cymdeithasu, right? Dw i ddim eisiau cymdeithasu o gwbl...
 Brian - Os wyt ti'n gofyn i mi, Jac - rwyd ti wedi bod yn y tŷ yn rhy hir - lot rhy hir. A dydy hynny ddim yn gwneud lles i chdi. Ac wyt ti'n gwybod beth? Mae Arwyn yn cytuno hefo fi hefyd. Ac mae Arwyn yn gwybod beth sydd orau i chdi. Mae o'n ddoctor, wedi'r cwbl...
 Jac - Ex-doctor. Well, ex-surgeon, actually...
 Michelle - ... I don't want to interrupt or anything...And it's lovely to hear you speaking Welsh...But you might be aware that you two are not the only people waiting to be served right now...
 Brian - Sorry, it's my fault, jabbering away...I'll have a pint of lager please...
 Jac - I'll have a whiskey...
 Brian - Busy here tonight, isn't it?
 Michelle - Yeah. It's been like this since late November. Slow build up to Christmas...
 Jac - Odd. But I don't think I've seen you here before, have I?
 Michelle - Funny. They all seem to say that. Most popular chat-up line apparently.
 Jac - It wasn't meant as a chat up line. Those days are long gone for me, I'm afraid...
 Brian - Hei, c'mon, Jac. Rwyd ti'n swmio'n ddigalon ofnadwy heno. Jôc oedd o.
 Jac - Wel, dw i ddim yn teimlo fel chwerthin, right?
 Brian - And have one for yourself as well, love.
 Michelle - Cheers. That's very kind of you.
 Brian - Iechyd da - as we say in these parts.
 Michelle - Iechyd da.
 Brian - Hey, good accent! Sorry - I didn't quite catch your name?
 Michelle - That's because I haven't told you.
 Brian - Well, I'm Brian. Brian Rees. And this is Jac. Jac Whelan...
 Jac - Allright?
 Michelle - Nice to meet you both. I'm Michelle. Michelle Tremain - Benjamin's sister, actually...
 Brian - Benjamin's sister? Lovely name Michelle.
 Michelle - And that's the second most popular chat up line!
 Brian - Yes...well...it's a lovely name all the same...Michelle...lovely... indeed.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 230

It seems that there's more to Michelle the new barmaid than meets the eye as Jac and Brian get to know her better.

Agnes receives an early morning visitor to the house...

Geirfa

Gair sydyn	a quick word
Ar hast	in a hurry; in haste
Clou	quick (SW)
Lan staer	upstairs (SW)
Gweddill fy oes	rest of my life
Cymwysterau	qualifications

Golygfa 1

Agnes - Oh, Brian...Roeddwn i'n meddwl taw'r postmon oedd yma...

Brian - Rwyd ti ar fin mynd â'r plant i'r ysgol, yn dwyt ti ?

Agnes - Ydw. Rydyn ni ar fin cychwyn. Rydyn ni dipyn bach yn hwyr...

Brian - Ga' i air sydyn hefo chdi plis?

Agnes - Beth? Nawr? Dw i ar hast Brian. Dw i newydd ddweud fy mod i ar hast. Oes rhaid?

Brian - Os yn bosibl. Plis. Dw i jyst angen munud neu ddau o dy amser di.

Agnes - Gair clou ynte. Gair clou iawn.

Brian - Lle mae'r plant?

Agnes - Lan staer. Yn gwisgo.

Brian - Ah-huh...Wel, mae gennyd ti funud ynte...

Agnes - Brian - beth wyt ti moyn?

Brian - Sgwrs am y Nadolig. Dyna'r cwbl. Rwyd ti wedi osgoi'r sgwrs yma am yn rhy hir. Beth wyt ti a fi yn mynd i'w wneud?

Agnes - Beth wyt ti a Wendy Keating yn mynd i'w wneud eleni yw'r cwestiwn?

Brian - Fydd Wendy ddim o gwmpas dros y 'Dolig.

Agnes - Fydd Wendy ddim o gwmpas dros 'Dolig? Ble mae hi ynte? Yn ôl yn Lanzarote yn disgwyl amdanat ti, ife?

Brian - Mae hi wedi mynd adra at ei mam, reit? Aeth hi a Vicky ddoe. Dydy ei mam hi ddim yn dda. Dydy hi ddim yn dda o gwbl.

Agnes - Cer i aros at Wendy a'i mam ynte. Byddwch chi'n un teulu bach hapus wedyn. Ti...

Wendy...Vicky...a mamgu Vicky. Ble yn gymwys mae mam Wendy yn byw?

Brian - Yn y Rhondda. A dw i ddim eisiau mynd i'r Rhondda. Dw i ddim eisiau mynd at Wendy.

Na'i mam. Dw i eisiau treulio'r Nadolig yma hefo chdi a'r plant...

Brian - Buasai fo'n gymaint o hwyl i ni i gyd dreulio'r Nadolig hefo'n gilydd, Agnes. Dwyt ti ddim yn meddwl?

Agnes - Nag ydw Brian. Dw i ddim moyn i ti dreulio'r Nadolig gyda ni fan hyn.

Brian - Beth am y plant? Rhywbeth iddyn nhw ydy'r Nadolig ynde? A buasai Rhodri wrth ei fodd taswn i yma...

Agnes - Dw i moyn i ti gadw draw. Mae'n ddrwg gyda fi Brian. Ond dyna ddiwedd arni.

Brian - Roeddwn i wedi gobeithio...Rwyd ti'n gwybod...Roeddwn i wedi gobeithio...

Agnes - Na Brian!

Brian - Efallai...efallai buasai chdi a fi...Efallai buasen ni'n medru dod yn ôl at ein gilydd...

Agnes - Na...

Brian - A buasai'r flwyddyn newydd yn ddechrau newydd i chdi ac i fi...

Agnes - Brian? Smo ti'n gwrando ar fy atebion i. Dw i wedi dweud na.

Brian - Ond dw i ddim eisiau byw hefo Arwyn a Jac am weddill fy oes...A dw i ddim eisiau Wendy - ac mae hi'n gwybod hynny hefyd...Y cwbl dw i eisiau ydy chdi.

Agnes - Ond sa i moyn ti, Brian...A sa i moyn ti gyda fi a'r plant ar fore Nadolig chwaith.

Golygfa 2

Michelle - ...same as last night?
 Jac - Please. Make it a double. Wisgi mawr...
 Michelle - Wisgi mawr. I ti.
 Jac - Hey - rwyd ti'n siarad Cymraeg...
 Michelle - Wel, dipyn bach. Why are you looking so surprised? Do I sound daft or what?
 Jac - Na, dwyt ti ddim. Na, na. Rwyd ti'n swnio'n grêt...
 Michelle - You sure? You had that look in your eye...I can tell when people are making fun of me...Roeddwn i'n arfer mynd i'r ysgol...Roeddwn i'n arfer cael gwersi Cymraeg...
 Jac - Da iawn...
 Michelle - Ond wnes i gadael pan oeddwn i'n un deg chwech...
 Jac - Ah... wnest ti adael pan oeddet ti'n un deg chwech... Fel fi. Roeddwn i'n casáu'r ysgol hefyd.
 Michelle - A fi. I regret it now, though.
 Jac - Wyt ti? Dw i ddim...
 Michelle - Without - heb - beth yw'r gair?
 Jac - Addysg? Education?
 Michelle - Na...Ddim addysg...I'm looking for the Welsh word for qualifications...
 Jac - Qualifications? Paid â gofyn i fi! Does gennyf i ddim syniad!
 Brian - Haia. Can I have a pint of lager top, please Michelle?
 Jac - Hey. Pam wyt ti'n gofyn yn Saesneg? Mae Michelle yn siarad Cymraeg yn iawn...
 Brian - Wyt ti?
 Michelle - Tipyn bach. Ond paid â siarad yn rhy fast...
 Jac - Hey, Brian: wyt ti'n gwybod beth ydy'r gair Cymraeg am qualifications...?
 Brian - Ydw...Pam?
 Jac - Wel, os wyt ti - elli di ddweud wrthyn ni...?
 Brian - Cymwysterau.
 Michelle - Cym-wys-terau.
 Jac - Cymwysterau? Ie?
 Brian - Ie. Cymwysterau. Pam?
 Jac - Wel, dyna ti, Michelle...Rwyd ti'n dysgu rhywbeth newydd bob dydd.
 Michelle - Thank you, Brian...Arwyn's also very good to me. He's always helping me out with my Welsh...
 Brian - Wel, dw i'n athro da hefyd...
 Michelle - Dw i'n siwr dy fod ti.
 Jac - I'd watch this man if I were you, Michelle...
 Michelle - I know. I've already been warned about him.
 Brian - Oh? Who's been spreading lies about me then?
 Michelle - You'd be surprised...

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 231

After an emotional conversation with Jac, Agnes receives a text message which leaves her completely baffled. However, all becomes clear when Jenny and Agnes make a grizzly discovery.

Geirfa

Dyfodol	future
Hwyliau da	good spirits, good mood
Perthynas	relationship
Peipan	pipe
Bricsan	brick

Golygfa 1

Jenny - Agnes...
Agnes - Jenny...Jac...Shwmai?
Jac - Mae gennyf i sesiwn hefo'r physio bore yma...
Jenny - Ydy hi'n iawn i mi adael Jac hefo ti, Agnes?
Agnes - Ydy...Wrth gwrs...
Jenny - Diolch. Dw i'n gorfod mynd i ward y plant mewn deg munud...
Jac - Diolch am fy ngwthio fi, Jenny...
Jenny - Croeso. A dw i'n gobeithio bydd dy sesiwn physio di yn iawn...
Jac - So.
Agnes - So - beth?
Jac - Wel, dydy fy sesiwn i ddim yn dechrau tan hanner awr wedi deg...
Agnes - O, nag yw hi? Beth wyt ti'n ei awgrymu ynte?
Jac - Beth am fynd i dy swyddfa di? Ie?...Oes gen ti swyddfa o hyd?
Agnes - Wel oes, wrth gwrs.
Jac - Buaswn i'n hoffi sgwrs efo ti. Sgwrs breifat. Gawn ni fynd i dy swyddfa di, plis?
Agnes?
Agnes - O'r gorau...

Golygfa 2

Agnes - Jac? Bydd yn onest... wnest ti ddod draw i'r ysbyty yn gynnwys er mwyn fy ngweld i, yn do?
Jac - ...Do.
Agnes - Rwyf ti'n gwneud popeth mor anodd...
Jac - Rwyf ti'n gwneud popeth yn anodd i fi hefyd.
Agnes - Does dim dyfodol i ti a fi.
Jac - Agnes...Taswn i'n dweud fy mod i'n dy garu di...Fy mod i'n meddwl amdanat ti ddydd a nos...
Beth fuaset ti'n ei ddweud?
Agnes - Dweud wrthyf ti am beidio. Dweud dy fod ti'n ffŵl.
Jac - Ond dw i'n methu helpu fy hun Agnes. Rhaid i ti ddeall hynny!
Agnes - Jac.
Jac - Rhaid i ti ddeall hynny! Dw i mewn poen Agnes. Dim y poen o golli fy nghoes. Ond poen gwaeth. Poen gwaeth o lawer... Rwyf ti wedi torri fy nghalon i Agnes. Wel? Beth sydd gennyf ti i ddweud?
Agnes - Tasen ni'n dau yn dod i fyw gyda'n gilydd...Rwyf ti'n gwybod beth fyddai'n digwydd...
Jac - Beth? Brian?
Agnes - Ie! Brian!
Jac - Does dim rhaid i chi fod ofn Brian -
Agnes - Smo ti'n adnabod Brian fel dw i'n ei adnabod e. Mae fe'n genfigennus.
Sori. Mae'n rhaid i fi fynd. Wyt ti am aros fan hyn?
Jac - Ydw...jyst am funud...
Agnes...rwyf ti wedi gadael allweddi...allweddi dy gar...

Golygfa 3

Jenny - Agnes...Hiya...
 Agnes - ...Mmmm?
 Jenny - Beth sydd?
 Agnes - Dw i ddim cweit yn deall...
 Jenny - Deall beth?
 Agnes - Y neges yma dw i wedi ei gael ar fy mobeil...Edrycha...
 Jenny - "Paid â phoeni, Agnes. Ond rydw i'n gobeithio y byddi di'n deall pam rydw i wedi gwneud hyn. Dw i'n siwr cei di gar arall gan Brian. Cariad am byth, Jac."
 Agnes - A dw i'n siwr cei di gar arall gan Brian...Beth mae hwnna i fod i'w feddwl?
 Jenny - Od. Yn lle wyt ti wedi parcio dy gar di?
 Agnes - Wel, yn yr un lle ag arfer.
 Jenny - Tyrd i ni weld os ydy o'n dal yna...

Golygfa 4

Jenny - ...roeddwn i'n gweld Jac yn well o lawer - mewn hwyliau da iawn, mae'n rhaid i mi ddweud...
 Agnes - Mae fe dal moy'n perthynas gyda fi...
 Jenny - Ond roeddwn i'n meddwl dy fod ti wedi gwneud pob dim yn berffaith glir iddo fo... Lle mae dy gar di?
 Agnes - Fan 'co... - ...Jenny! Edrycha!
 Jenny - Tyrd!
 Agnes - Jac! Jac! Dw i'n methu agor y drws! Sa i'n gallu agor drws y car.
 Jenny - Mae o wedi cloi'r drysau o'r tu mewn!
 Agnes - Jac! Jac! Mae'n rhaid ei fod e wedi cymryd allwedd i'r car o'r swyddfa!
 Jenny - Tynna'r beipan, Agnes -
 Agnes - Mae'r beipan yn styc... yn y ffenest -
 Jenny - Tynna'r beipan o'r exhaust ynte!
 Agnes - Ydy e'n fyw? Jac! Jac!
 Jenny - Mae'r car yn llawn o fwg!
 Agnes - Jac!
 Jenny - Rhaid i ni dorri'r ffenest!
 Agnes - Mae fe wedi marw! Mae fe wedi marw!
 Jenny - Agnes - safu yn ôl!
 Agnes - Jac!
 Jenny - Agnes - sefyll o'r ffordd! Dw i am daflu bricsan drwy'r ffenest!
 Agnes - Mae Jac wedi marw!

Synopsis

We see a very unhappy Jac - he hasn't taken Agnes' decision to end their relationship at all well. Unaware of the true nature of Jac's depression, Brian tries his best to cheer him up by taking him down to the Yacht Club for a boys night out. But even the appearance of an attractive, young barmaid can't lift Jac's spirits.

Test yourself

1. Which of the following is incorrect?
 - a) **mor lawn**
 - b) mor rhydd
 - c) mor llon
2. How do you say "Agnes is about to speak"?
 - a) Mae Agnes yn siarad.
 - b) Mae Agnes newydd siarad.
 - c) **Mae Agnes ar fin siarad?**
3. If someone comes from South Wales, they would say:
 - a) **Mae Jac moyn disglaid o de.**
 - b) Mae Jac eisiau paned o de.
 - c) Mae Jac moyn paned o de.
4. How do you say "I'm exhausted" in Welsh?
 - a) Dw i wedi glanhau.
 - b) **Dw i wedi blino'n lân.**
 - c) Dw i'n flin iawn.
5. Which expression would you use to say that someone was in a bad mood?
 - a) **hwyliau drwg**
 - b) hwyl fawr
 - c) hwyl a sbri
6. Anrheg is the word for a gift in Welsh. Which plural ending would you use after it?
 - a) -au
 - b) -oedd
 - c) **-ion**

